"Fe roddaf dy gnawd i adar yr awyr"

(dewrder / penderfyniad)

Digwyddodd y stori hon amser maith yn ôl yng ngwlad Israel. Hon oedd gwlad yr Iddewon, y wlad roedd Duw wedi arwain ei bobl iddi o'r Aifft. Yn y wlad hon roedd y bobl wedi byw a ffermio'n heddychlon am flynyddoedd lawer. Hon oedd y wlad roedden nhw i gyd yn ei charu. Ond roedd gelyn ar y gorwel. Roedd byddin fawr y Philistiaid eisoes wedi concro'r gogledd ac yn awr ar eu ffordd i'r de i wlad yr Iddewon.

Wynebau'r ddwy ochr ei gilydd yn nyffryn afon Elah, rhyw 15 milltir i'r gorllewin o bentref bychan Bethlehem. Doedd yr Iddewon ddim yn filwyr fel milwyr y Philistiaid. Ffermwyr oedden nhw oedd yn ceisio amddiffyn eu tir. Roedd gan ambell un gleddyf a tharian ond roedd y mwyafrif yn defnyddio pastynau. Byddai ambell un yn defnyddio ffon dafl. Gyda'r rhain y byddai'r ffermwyr yn gwarchod eu defaid rhag y bleiddiaid.

Ond roedd byddin y Philistiaid yn fwy parod ar gyfer rhyfel. Roedd ganddyn nhw geffylau ac arfau penodol ar gyfer brwydro. Dynion tal, cryf oedd aelodau o fyddin y Philistiaid. Roedd hyn yn codi ofn ar yr Iddewon, yn enwedig yr hanes oedd yn mynd o gwmpas am un o'r Philistiaid, cawr o ddyn – Goliath o wlad Gath.

Un bore, heriodd Goliath bobl Israel, "Beth ydych chi'n wneud yma, bobl Israel? Ydych chi'n barod i ymladd ai peidio? Fe wn i beth wna i. Rhag bod pob un ohonoch yn cael ei ladd rhoddaf sialens i un ohonoch. Ie, dim ond un ohonoch. Heriaf un ohonoch i ymladd â mi. Os bydd ef yn ennill ac yn fy lladd i, yna bydd byddin y Philistiaid yn gaethweision i chi am byth. Ond os byddaf i yn ennill y frwydr yma bydd rhaid i chi i gyd fod yn gaethweision i mi."

Ar yr olwg gyntaf roedd hyn yn edrych yn dda ond doedd yr Israeliaid ddim yn hapus iawn. "Buasai'n well gen i fod yn gaethwas nag yn gorff marw," meddai un. "Pa obaith sydd gynnon ni?" gofynnodd un arall. "Mae'r cawr Goliath yna'n dalach o lawer na'n dynion ni.

Clywodd brenin Israel, y Brenin Saul, am hyn ac meddai,

"Pwy bynnag sy'n barod i ymladd Goliath, fe gaiff rodd arbennig gen i."

Ond doedd neb yn barod i wirfoddoli. Rhoddodd y Brenin

Saul gynnig arall, “Pwy bynnag sy’n barod i ymladd Goliath caiff briodi fy merch.”

Ond eto, doedd dim gwirfoddolwyr. Meddai’r Brenin unwaith eto, “A fydd dim rhaid i deulu’r hwn sy’n barod i ymladd byth dalu trethi am weddill eu hoes.”

Ond doedd neb yn barod i wirfoddoli. A dyna lle roedd Goliath yn dal i herio’r Israeliaid. Un diwrnod daeth Dafydd heibio. Dyna lle roedd ei frodyr a’r dynion eraill yn trafod yr hyn roedd Goliath wedi’i ddweud. Er mai bachgen ifanc oedd Dafydd, pan glywodd hyn aeth yn syth i weld y Brenin Saul. “Rydw i am wirfoddoli i ymladd yn erbyn y cawr Goliath,” meddai.

“Ti yn ymladd yn erbyn . . . ” dechreuodd y Brenin Saul chwerthin.

“Bydd Duw yn barod i ofalu amdanaf,” meddai’r bachgen Dafydd. Gwisgodd wisg milwr ond roedd yn rhy fawr iddo. “Mi af fel rydw i,” meddai Dafydd. Cydiodd yn ei ffon dafl a phump o gerrig llyfnion o lan yr afon. Rhoddodd y cerrig yn y bag bugail oedd am ei ganol.

Chwarddodd Goliath pan welodd y bachgen Dafydd yn dod i’w gyfarfod a gofynnodd, “Ai ci wyf fi, dy fod yn dod ataf â ffyn?” Daliodd i gerdded tuag ato. Ac meddai Goliath. “Tyrd yma, ac fe roddaf dy gnawd i adar yr awyr ac i’r anifeiliaid gwyllt.”

Arhosodd Dafydd yn ei unfan. Rhoddodd un o’r cerrig llyfnion yn ei ffon dafl ac anelodd. Trawodd y garreg Goliath yn ei dalcen. Syrthiodd i’r llawr. Rhedodd Dafydd tuag ato a chan gymryd cleddyf Goliath rhoddodd yr ergyd olaf iddo. Bu farw Goliath.

Byth ar ôl hynny bu Dafydd yn byw ym mhalas y Brenin Saul.

Adnod: “Felly trechodd Dafydd y Philistiaid â ffon dafl a charreg, a’i daro’n farw, heb fod ganddo gleddyf.”
1 Samuel 17:50

Gweddi: O Dduw, pan fydd arna i ofn, wnei di fod yn gefn i mi. Amen.

Trafod:

- Ai stori am ryfel ynteu stori am arwr ydi’r stori hon?
- Beth, yn eich barn chi, ydi neges y stori hon?